

**Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007
(fel y'i newidiwyd), Rheoliad 22 – Penderfyniad Caniatâd Asesiad
Effeithiau Amgylcheddol**

Teitl: Rhan 3 Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Gorllewin y Rhyl

Caniatâd Rheolaethol: Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol)
2007 (fel y'i newidiwyd)

Gweithredwyr: Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Rhif: Cyf: CRML1436

Lleoliad: Gorllewin y Rhyl, Sir Ddinbych

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn benderfyniad caniatâd Asesiad Effeithiau Amgylcheddol o dan Rheoliad 22 Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'i newidiwyd) (Rheoliadau Gwaith Morol) mewn perthynas â chais a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych. Roedd y cais yn cael ei gefnogi gan Adendwm Datganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais ac erbyn hyn mae mewn sefyllfa i gyflwyno penderfyniad caniatâd Asesiad Effeithiau Amgylcheddol i Gyngor Sir Ddinbych.

Disgrifiad o'r Prosiect

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflwyno cais am Drwydded Forol i gyflawni Rhan 3 o Gynllun Amddiffyn yr Arfordir Gorllewin y Rhyl.

Mae'r gwaith sydd angen Trwydded Forol o dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (2009) yn cynnwys:

- Cloddio tywod a graen bras o Ddwyrain y Safle y tu allan i Bentre'r Plant
- Adeiladu clawdd dros dro
- Peilio 3m wrth droed wal gynnal
- Adeiladu troed wal gynnal
- Defnyddio'r deunydd wedi'i gloddio mewn cynllun proffilio at lefel +6.52mOD
- Adeiladu Matres Wal Gynnal

Mae'r gwaith yma hefyd angen Caniatâd Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990). Rhoddodd Cyngor Sir Ddinbych Ganiatâd Cynllunio i'r datblygiad ar 25 Ionawr 2011 (Rhif cais: 45/2010/1300).

Datganiad Amgylcheddol

Aseswyd yr Adendwm Datganiad Amgylcheddol fel rhan o'r broses benderfynu. Cafodd y meysydd canlynol yn y Datganiad Amgylcheddol eu hasesu:

- Trefn Hydrodynameg & Gwaddodion
- Perygl Llifogydd
- Mordwyo
- Ansawdd Dŵr a Gwaddodion
- Fflora a Ffawna
- Ansawdd Aer
- Sŵn
- Cludiant
- Tirlun
- Treftadaeth
- Economaidd-Gymdeithasol
- Effaith Gronnol
- Crynodeb Lliniaru

Sensitifrwydd Amgylcheddol

Mae'r cynllun arfaethedig ger Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl. Gallai hefyd effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Dyfrdwy ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Dyfrdwy.

Daeth yn amlwg o brawf o'r effeithiau arwyddocaol tebygol a gynhaliwyd na fyddai'n effeithio'n arwyddocaol ar nodweddion Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl. Felly, ni chynhaliwyd Asesiad Priodol. Casgliad y Prawf o Effeithiau Arwyddocaol Tebygol oedd na fyddai'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol, ar ei ben ei hun neu ar y cyd, ar unrhyw Safle Gwarchodaeth Ewropeaidd.

Ymgynghoriad

Cafodd rhybudd cyhoeddus ei gyhoeddi yn y Daily Post ar 7 Awst 2014 ac ar 14 Awst 2014 i hysbysu'r partïon â diddordeb am y gwaith arfaethedig ac i roi'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar y cais. Daeth y cyfnod ymgynghori cyhoeddus i ben ar 25 Medi 2014. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

Ymgynghorwyd ar y cais gwaith morol ar 4 Awst 2014 ac anfonwyd at y canlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru – 'gwaith ymgynghori', Y Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu, Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau, Ystâd y Goron, Yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Yr Awdurdod Harbwr Lleol, Y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol, Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, Cymdeithas Frenhinol Gwarchod

Adar, Trinity House, Cadw a Changen Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru, Swyddogion Gorfodaeth Morol.

Rhagdybiwyd nad oedd gan ymgynghoreion nad atebodd sylwadau.

Gwerthusiad Rheoleiddiol a phenderfyniad caniatâd Asesiad Effaith Amgylcheddol

Wrth ystyried y cais am ddatblygu Rhan 3 Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Gorllewin y Rhyl, cafodd y canlynol eu hystyried:

- Y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys y mesurau lliniaru a gynigir;
- Darpariaethau perthnasol Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009 a'r
- Ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd.

Wrth ystyried y rhain, cynhaliwyd asesiad llawn a manwl o'r effeithiau posibl, uniongyrchol ac anuniongyrchol, y cynigion ar y Drefn Hydrodynameg a Gwaddodion, perygl llifogydd, mordwyo, ansawdd dŵr a gwaddodion, fflora a ffawna, ansawdd aer, sŵn, cludiant, tirlun, treftadaeth, cymdeithasol-economaid, effeithiau cronol a'r crynodeb lliniaru.

Mae'r Tîm Trwyddedu Morol yn cymeradwyo canfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol, yn amodol ar gynnwys ar unrhyw drwydded a gyhoeddir, yr amodau y cyfeirir atynt uchod a bod cydymffurfiad.

Felly, mae'r Tîm Trwyddedu Morol, yn gweithredu dros ac ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, yn dod i'r casgliad na fydd y prosiect yn effeithio'n arwyddocaol niweidiol ar yr amgylchedd. Felly, gellir cyflwyno penderfyniad caniatâd Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ffafriol i Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer gwaith morol fel rhan o Ran 3 Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Gorllewin y Rhyl.

Cymeradwyaeth

Cynhyrchwyd gan Katherine Route-Stephens – Tîm Trwyddedu Morol

Llofnodwyd:

Dyddiad: 2 Hydref 2014

Cymeradwywyd Gan: Anwen Davies – Tîm Adnoddau Dŵr (Cynllun Dirprwyo dros John Wheadon – Rheolwr y Ganolfan Drwyddedu)

Llofnodwyd:



Dyddiad: 2 Hydref 2014